# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd Nos Fercher 10.05.23 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Keith Carroll (KC – Cadeirydd), David Griffiths (DG - Is Gadeirydd), Huw Davies (HD), Geraint Edwards (GE) Geraint Micah (GM), Nicola Roberts (NR), Jane Lawrence (JL), Ian Williams (IW), Jenny Warne (JW), Louise Hughes (LH – Cynghorydd Sirol) Jane Jenkins (JJ - Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Atgoffodd y Cadeirydd fod pawb i ddilyn y Côd Ymddygiad ac i ddilyn Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned. Crybwyllwyd yn fyr fod Francesca Pridding wedi ymddiswyddodd a diolchodd KC am beth oedd Fran wedi'i wneud yn ystod ei chyfnod ar y Cyngor. Diolchwyd Glenda Edwards am ei chymorth i'r Clerc newydd i gael y gwaith papur a phopeth yn ôl mewn trefn. Nodwyd yn ystod cyfnod KC fel Cadeirydd, roedd wedi gweld 3 clerc, 3 prif weinidog a 2 deyrnasiaeth, felly fe 'roedd yn gobeithio am flwyddyn dawelach o'n blaen.

   **Ethol Cadeirydd Newydd:** GE yn cynnig David Griffiths. Eiliwyd gan JW. **Derbyniodd DG.**
   Cymerodd DG reolaeth fel y Cadeirydd newydd er mwyn parhau â'r cyfarfod.
   **Ethol Is-Gadeirydd**: KC yn cynnig Geraint Edwards. Eiliwyd gan JW. **Derbyniodd GE.**

   **Ethol Cynrychiolwyr y Cyngor:** (Cytunodd pawb oedd yn bresennol ynghylch pwy gafodd ei hethol)
   **a.** Un Llais Cymru – Keith Carroll
   **b.** Pwyllgor Pîg yr Allt – Geraint Edwards
   **b.** Pwyllgor Y Ganolfan – David Griffiths
   **d.** Heddlu Gogledd Cymru – Ian Williams

2. **Ymddiheuriadau: Dim.**

   2.1. **Datgan Diddordeb: Dim.**

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12.04.23 yn gywir.
   **Cynnig:** GE **Eiliwyd:** KC **Arwyddwyd:** DG.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol:**
   **a) Cyfrifon y Mynwentydd:** Esboniodd JJ yn fyr (er nad oes cyfraith achosion) bod darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1894 yn cael eu diystyru gan ddarpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 a Deddf Llywodraeth Leol 1972 mwy newydd, lle gellir rhoi rhodd os yn sicrhau budd cyhoeddus ac ar y sail bod mynwent eglwys yn safle cyhoeddus gwerthfawr.
   Mae NALC yn cynghori nad yw barn bresennol y Llywodraeth yn ofyniad pellach am ddeddfwriaeth ar y sail and yw cyfyngiadau Deddf 1894 yn drech na darpariaethau'r Ddeddf ddiweddarach.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

   **a) ROSPA:** Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau dyddiad yr archwiliad blynyddol y Cae Chwarae yn Llwyngwril. Cadarnhaodd JJ ei bod wedi hysbysu ROSPA o'r offer ychwanegol yn y Cae Chwarae.

   **b) Hysbysiad Archwilio Allanol:** Cadarnhaodd JJ ei bod wedi derbyn hysbysiad gan yr archwilwyr allanol ac eu bod angen gwneud "archwiliad llawn" eleni.
   Eglurodd JJ fod materion gyda PAYE ac IRPW yn y flwyddyn 2022/23, ac efallai y byddai'r archwilydd angen rhagor o wybodaeth am rhain.

   **Amrywiol**
   - **Wal Derfyn Friog** – Hysbysodd JJ am e-bost gan Gyngor Gwynedd yn nodi bod cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu yn ymwneud â'r mater hwn a byddai diweddariad yn cael ei ddarparu. Dywedodd LH ei bod wedi mynychu cyfarfod Pwyllgor Cyswllt Rheilffordd Rheilffordd y Cambrian ac wedi gwneud cais ffurfiol am archwiliad o'r wal ond nid oedd unrhyw newyddion pellach hyd yma.
     Penderfynwyd felly mai'r Ombwdsmon a'r corff llywodraethu perthnasol ar gyfer Network Rail ddylai fod y cam nesaf er mwyn ceisio datrys y mater hwn.
     **LH i ddarganfod pwy ydi'r corff rheoleiddio Network Rail** a throsglwyddo'r manylion i JJ er mwyn iddi allu gwneud y cyfeiriadau perthnasol.
   - **Cronfa Cymunedau Eryri 2023-24** – JW wedi gofyn i'r e-bost gael ei drafod yn y cyfarfod – rhag ofn y gallai fod o ddiddordeb i grwpiau lleol. Cytunodd pawb y dylai gael ei osod ar ein hysbysfyrddau yn y pentref ac yn Rhoslefain.

- **E-bost gan Gyngor Cymuned Pistyll** - Eglurodd GE beth oedd yn cael ei ofyn yma ac er nad oedd yn berthnasol yn uniongyrchol i ni, roedd gennym ni bolisi dwyieithog ac efallai y dylai'r cyngor gynnig cefnogaeth mewn egwyddor iddynt. Os y gofynir i ni wneud rhywbeth arall, rhaid trafod ymhellach.
  JJ i ymateb i'r e-bost.
- **Ymatebwyr Cyntaf y Friog** – Adroddodd JJ fod Mike Senior wedi ymateb ac wedi cadarnhau ei fod, wrth wirio cofnodion, wedi darganfod bod y gorchymyn dan sylw wedi ei osod yn enw'r Ymatebwyr Cyntaf (a dyna pam fod yr anfoneb wedi ei wneud iddynt hwy) ac roedd Alan Wilde wedyn wedi anfonebu'r Cyngor Cymuned.
  Nid oedd ganddo unrhyw syniad pam, a gallai ond ymddiheuro am y camgymeriad a'r ffaith fod y Cyngor wedi colli yr ad-daliad TAW. Cytunwyd y byddai Mike Senior yn cael ei wahodd i'r cyfarfod nesaf i allu cytuno ar ddull gweithredu pan fyddai offer pellach ar gyfer y diffibrilwyr angen eu trefnu.
  JJ i gysylltu â Mike Senior.
- **Carnifal** – Roedd y rhan fwyaf yn ymwybodol bod hwn wedi'i ganslo ar gyfer 2023 ond roedd JJ wedi derbyn cais gan Hannah Johns yn gofyn am eglurhad swyddogol gan y Cyngor, gan ei bod yn dweud mai dealltwriaeth pawb dan sylw oedd ei fod yn ddigwyddiad a gefnogwyd gan y Cyngor Cymuned.
  Eglurodd JJ ei bod hi eisoes wedi mynd i'r afael â'r sefyllfa yn anffurfiol yn seiliedig ar y cofnodion i law, ac roedd yr holl Gynghorwyr wedi cytuno eu bod yn cefnogi'r syniad o Garnifal, ond dyna'r cyfan ydoedd. Yn bendant, nid oeddent wedi cytuno i gefnogi Is-bwyllgor neu Grwp Gwaith, a bu i'r mater ond gael ei cyffwrdd yn fyr o dan "Unrhyw Fater Arall".
  JJ i ymateb i Hannah Johns.

6. <u>Materion Cynllunio</u>**: Dim.**

7. **<u>Adroddiad Ariannol:</u>**

   a) **Adroddiad Ariannol ar gyfer 31/03/23 i 21/04/23**: Cytunwyd fel gwir gyfrif a chymeradwywyd.
   **Cynnig:** GE **Eilio:** IW **Arwyddwyd:** DG

   b) **Cyfrifon, Ffurflen Flynyddol 2022-23, Llyfr Arian Parod, Cysoni Arian Parod ac Adroddiad Blynyddol**:
   Wedi'i weld a'i gymeradwyo gan bawb. Gallai'r Adroddiad Blynyddol nawr gael ei gyhoeddi ar y wefan a'r dogfennau yn barod at yr archwiliad mewnol gael eu cyflwyno.
   **Cynnig:** IW **Eilio:** JW
   Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol wedi eu harwyddo gan DG.

   c) **Praesept:** – Cadarnhaodd JJ fod Cyngor Gwynedd wedi anfon cadarnhad o'r taliad Praesept, ond gan nad yw'r Cyngor Cymuned yn bancio ar-lein, JJ yn ansicr pa dyddiad y cafodd ei dalu i mewni'r banc.

   d) **Cyflog a chostau'r Clerc:** Darparodd JJ Ddatganiad Tâl a Datganiad Treth Incwm.
   Datganiad Tâl wedi'i lofnodi fel un cywir a taliad wedi ei arwyddo gan DG.

   e) **Adnewyddu Polisi Yswiriant**: Cadarnhaodd JJ fod adnewyddiad wedi'i dderbyn a'i wirio a'i fod yn gywir.
   Nodwyd Ffi Weinyddol o £25 ond fel arall yr un peth. Hon fydd ail flwyddyn y polisi 3 blynedd.

   f) **Cais Ad-daliad TAW:** Cadarnhaodd JJ fod cais wedi'i gwblhau a'i gyflwyno a'i fod am £1,300.00.

   g) **Anfonebau i'w talu**: fel yr uchod - gweler d), a thaliad am adnewyddu Yswiriant y Cyngor. Dim anfonebau eraill.

   h) **Polisi Rhoddion**: Polis wedi ei adnewyddu. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig i bob Cynghorydd ac fe'i cymeradwywyd. Arwyddwyd gan DG.

   i) **Polisi Hyfforddiant:** eglurodd JJ ei fod yn ofynnol cael hwn a bod cais wedi ei wneud yn y dogfennau archwilio allanol.
   Roedd JJ wedi drafftio polisi hyfforddiant sylfaenol, ac fe'i cymeradwywyd gan bawb gyda'r dyddiad.

   j) **Cytundeb Cyflogaeth y Clerc:** Roedd hwn bellach wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newid i dâl a chostau'r clerc.
   Wedi ei arwyddo gan JJ a DG.

**8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**

LH a JW wedi mynychu'r cyfarfod ynglyn a cau ward yn Ysbyty Tywyn.
Pwysleisiwyd mai cau "dros dro" ydoedd a'r gobaith oedd y byddai'n ailagor ym mis Awst, ac eu bod eisoes yn cyfweld staff. Trefnwyd cyfarfodydd gyda Betsi Cadwaladr bob pythefnos.
BCUHB yn gobeithio recriwtio tîm gŵr a gwraig o Fangor. Roedd o yn Ymgynghorydd ENT ac roedd hi'n feddyg teulu.
Roedd diffyg tai yn Nhywyn yn ffactor mawr i bobl yn adleoli ac roedd y mater yma yn cael ei ymchwilio.

**9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:**

**Ymddiheurodd LH yn gyntaf am ddigwyddiadau cyhoeddus diweddar a fu'n ymwneud â hi.**

• Cynnydd mewn galwadau a gohebiaeth ynglŷn â'r Dreth Gyngor yn codi i 150% am ail gartrefi.
• Roedd LH wedi mynychu fforwm ardal lle bu trafodaethau ar nifer swyddogion yr heddlu neu yn hytrach y diffyg ohonynt. Roedd cynnydd ym mhresenoldeb yr heddlu yn Nhywyn ond mewn perthynas â troseddau gwledig, ni chytunwyd ar gynnydd ym mhresenoldeb yr heddlu.
• Trawsfynydd: cwestiynau am yr hyn sy'n digwydd yno mewn gwirionedd - i'w dynnu i lawr a'r safle i gael ei lefelu
> Son yw bod yna newidydd bach (mini transformer) yn ei le? Nid yw LH wedi gallu sefydlu'r union sefyllfa.
• Cyfyngiadau cyflymder 20 mya: roedd arwyddion eisoes yn codi. Nid yw'n glir sut y gellir plismona hyn yn effeithiol ac er bod ymgynghoriad wedi'i gynnig, mae penderfyniad i ostwng y terfyn cyflymder eisoes wedi'i wneud.
• Dywedodd LH ei bod wedi holi a fyddai unrhyw un yn gofalu am ei hardal hi yn ystod ei mis pan fydd hi ddim yn cael gweithio fel Cynghorydd Sirol ac yr ateb oedd "na". Ni fydd yn mynychu cyfarfod Mis Mehefin.

**10. Unrhyw Fater Arall:**

*Cyn symud ymlaen i Unrhyw Fater Arall, tynnodd **DG** sylw at gyhuddiadau bod penderfyniadau wedi'u gwneud o dan UFA pan na ddylent fod wedi cael eu gwneud. Ar ol trafod y mater, roedd pawb yn gytun i gadw UFA ar yr agenda fel eisoes. Os oes materion yn codi yn UFA sydd angen dipyn fwy o amser i feddwl am benderfyniad , ynd dylai y testun gael ei ohurio a'i roi ar yr agenda at y mis nesaf, gyda'r eithriad dim ond os yw mater yn dyngedfennol o ran amser.*
*Roedd pawb yn cytuno y dylai'r defnydd o "mewn egwyddor" a "heb ragfarn" fod yn rhan o drafodaethau fel na all fod unrhyw gamddealltwriaeth yn y dyfodol fel sydd wedi digwydd gyda'r Carnifal.*

• Cododd JW fater Llechwedd (Ffordd y Coleg) a'r wal derfyn sy'n debygol o ddisgyn i mewn i'r ffordd.
Gofynnwyd i JJ gysylltu ag Adrian Williams o Gyngor Gwynedd.
• Cododd DG a JW fater y ffordd i fyny i Ysgubor y Nant (gyferbyn â Sun Beach) dŵr yn rhedeg i lawr o lefel uchel ond hefyd dŵr o amgylch y gyffordd gyda'r A493. Roedd Algae yn ymddangos ar y ffordd gan achos'r ffordd fod yn hynod o llithrig ac yn y gaeaf roedd y dŵr yn rhewi.
Pawb yn cytuno y dylai JJ godi'r mater hwn hefyd gydag Adrian Williams o Gyngor Gwynedd.
• Darllenwyd llythyr o ymddiswyddiad FP, nodwyd y cynnwys.
JJ i gysylltu â'r Swyddog yng Nghyngor Gwynedd a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o Sedd Wag i'w arddangos yn gyhoeddus a'i hysbysebu.
• Diolchodd IW i Keith am ei waith caled fel Cadeirydd dros y flwyddyn ddiwethaf.
• JJ i wneud ymholiadau pellach i Nat West ynghylch bancio ar-lein.
• JJ i gysylltu â Clive Jones ynglyn a ardaloedd o laswellt sydd wedi cael eu hanwybyddu a heb eu torri.

Daeth y cyfarfod i ben .

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 14.06.23 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**